**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (FFERM HENDRE WEN, LLANRWST, I BONT WATERLOO, BETWS-Y-COED, CONWY) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470 rhwng Llanrwst a Betws-y-coed, Conwy, neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o 40mya, 30mya, 20mya a 10mya a gwahardd goddiweddyd ar unrhyw adeg ar y darn o'r A470 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

ii. gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darn o'r A470 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Gwneir trefniadau i hebrwng cerddwyr a beicwyr yn ddiogel drwy/o amgylch y gwaith.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 10 Mawrth 2025, a byddant yn weithredol yn ysbeidiol hyd 23:59 o'r gloch ar 30 Mehefin 2026 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (HENDRE WEN FARM, LLANRWST, TO WATERLOO BRIDGE, BETWS Y COED, CONWY) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road between Llanrwst and Betws Y Coed, Conwy.

The effect of the Order will be to temporarily:

i. impose a 40mph, 30mph, 20mph and 10mph speed limit and prohibit overtaking at any time on the length of the A470 described in the Schedule to this Notice;

ii. prohibit cyclist and pedestrians from proceeding on the length of the A470 described in the Schedule to this Notice. Arrangements will be made to take cyclist and pedestrian safely through/around the works.

It is expected that the temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 10 March 2025 and operate intermittently until 23:59 hours on 30 June 2026 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A470 sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r ffordd fynediad i Fferm Hendre Wen, i’r de o dref Llanrwst, Conwy, hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A5 wrth Bont Waterloo, Betws-y-coed, Conwy.

## SCHEDULE

The length of the A470 trunk road that extends from its junction to the access road to Hendre Wen Farm, south of Llanrwst town, Conwy, to its junction with the A5 trunk road at Waterloo Bridge, Betws Y Coed, Conwy.